Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 29th June 2015** at **7.05pm**

**PRESENT :-** Her Worship The Mayor, Councillor Mrs E Butler

| | | | |
|---|---|---|---|
| Councillors :- | Mrs L Day (Chairman) | John Wynn Jones | J Martin |
| | Rhys Taylor | D Llewelyn | G O Roberts |
| | Mrs J Forsyth | Mrs J Marshall | H Williams |
| | D Hainge | K Marshall | |

Officer : Mr Gwyn Hughes, Town Clerk/Finance Officer

**56/15 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from the Deputy Mayor, Councillor D Williams (bereavement), Councillors D Madge (hospital), E T Dogan (hospital) and N Pickavance (illness).

**57/15 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

Her Worship the Mayor, Councillor Mrs E Butler, the Chairman, Councillor Mrs L Day, Councillors D Hainge, Mrs J Marshall and J K Marshall on Item 59/15 Draft Final Accounts a) Internal Auditor's Report – paragraph 4.

**58/15 URGENT MATTERS**

**a) Register of Members' Interests –** The Town Clerk reminded Members to update and complete the Register of Interests form so that it could be posted on the Council's web site as required by the Welsh Government.

**b) Gwynedd Council – Consultation on the future of Gwynedd's Library and Information Services – meeting to be held in Porthmadog on 15 July 2015**

It was **RESOLVED** that Her Worship the Mayor and Councillor D Hainge attend the meeting on behalf of the City Council.

**59/15 DRAFT FINAL ACCOUNTS FOR THE YEAR ENDED MARCH 2015**

**a) To consider Internal Auditor's Report**

Members considered the Internal Auditor's Report paragraph by paragraph. As there was a Declaration of Interest by several Members on paragraph 4 of the report, it was **RESOLVED** to deal with this paragraph first.

It was further **RESOLVED** that in accordance with Section 1 of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, the Press and Public be excluded during discussion of the item as it related to contractual matters which included information of a confidential nature:

The Town Clerk reported that since the Internal Auditor had written his report, a meeting had taken place with the consultants referred to about the contents of their report on the Pier and the Council's concerns about its deficiencies – as previously discussed in other Council/Committee meetings over the past 12 months. Members were reminded that these issues related to:

i) The consultation process with the Heritage Lottery Fund.

ii) The constraints that exist on the sea bed underneath and in the immediate vicinity of the Pier imposed by the Menai Straits Mussel and Oyster Fishery Order 1962 which protect and the safeguard the mussel beds and the interests of the mussel fishing industry locally.

An amicable agreement had been reached at this meeting whereby the consultants will reduce the total amount of their original invoice to reflect the Council's concerns about the shortfalls in the report on these issues. The consultants were now in the process of issuing an amended invoice for their work.

The Town Clerk advised that in his opinion the settlement was fair and accurately reflected the value of the remainder of the consultants' report to the Council. He also reported that he had discussed the settlement with the Internal Auditor and that the Auditor was in full agreement with that opinion.

Members welcomed the Town Clerk's report on the matter and it was **RESOLVED** to proceed to settle the matter in accordance with the advice given by the Clerk and the Internal Auditor.

It was further **RESOLVED** to thank the Town Clerk for safeguarding the City Council's interests in this matter.

It was then **RESOLVED** to re-admit the Press and Public into the meeting.

Declaration of interest by Her Worship the Mayor, Councillor Mrs E Butler, the Chairman, Councillor Mrs L Day, Councillors D Hainge, Mrs J Marshall and J K Marshall who left the Chamber during the discussion of paragraph 4 of the Internal Auditor's Report.

In the absence of the Chairman and Vice-chairman of the Committee as a result of their declaration of interest, Councillor J Wynn Jones took over the chair for this item.

After leaving the Chamber for the item referred to in paragraph 4 of the Internal Auditor's Report, Councillor Mrs June Marshall did not return for the remainder of the meeting.

Councillor Mrs Day then took the Chair for the remainder of the meeting.

The Auditor's report raised the issue of accounting software in paragraphs 1, 2 and 3 of his report. The Town Clerk reminded Members that money had been set aside in the 2015/16 budget to purchase new software. Microsoft had now ended their support for the Windows XP operating system that the Council's existing software package depended upon and therefore a change had been forced upon it. He had followed up the Auditor's advice on the new accounting software package suggested, consulted Ian Jones, the Town Clerk designate and had received excellent reports from all users. Connah's Quay Town Council had also recently installed the new system and Ian Jones was familiar with its capabilities and was very impressed. Accordingly, the new Rialtus software had now been ordered and would be installed and fully functional within the next few weeks. Members welcomed the progress in this matter.

The contents of paragraph 5 concerning the Internal Auditor's independence was noted as were the contents of paragraph 6.

Accordingly it was **RESOLVED** to thank Mr John Roberts, the Internal Auditor and also Ms Joy Roberts and the Town Clerk for their work on the 2014/15 Annual Accounts.

It was then **RESOLVED:**

**b)** To approve the Statement of Accounts for 2014/2015

**c)** To approve the figures for the Annual Return for 2014/2015

**d)** That Members accepted the responsibility for the preparation of the Accounts for the Year Ended 31st March 2014 and to confirm that they agreed with all the assurances indicated on the Statement of Assurance for 2014/2015.

**60/15 BANGOR PIER HERITAGE LOTTERY FUND (HLF) APPLICATION RESULT**

The Town Clerk reported on the result of the HLF application for first round funding to develop the Pier project. Unfortunately, on this occasion the bid was not successful.

It appeared that only £1.026 million was available throughout Wales in this bidding round and the value of the bids received exceeded £7.1 million. The HLF Committee *'…….recognised the potential of the project to contribute to a wider investment in Bangor and noted a substantial part of the partnership funding were already secured.*

*However there were elements for concern:*

*a) Committee were not convinced by the case presented for urgent works*
*b) The risk of significant cost increases*
*c) Long term sustainability which appeared to be partly dependent on future unfunded work phases'*

The letter went on to invite Council officers to further discussions with HLF officials about the bid.

The Town Clerk stated that contrary to the opinions expressed in the HLF letter, the condition of some of the structural steel and metal underneath the main structure was rapidly deteriorating and it would be very unwise to ignore that fact. The Colwyn Bay Pier scenario whereby the structure had deteriorated to such an extent that it would cost many millions of pounds to salvage was not acceptable as far as Bangor Pier was concerned. He advised that the Council's original intention of carrying out repairs and refurbishing work on the deteriorating steelwork on an incremental bay-by-bay basis should now be implemented as soon as possible. He also advised that the Council should clarify with HLF whether this work would prejudice a future application for funding submitted to them.

It was **RESOLVED** to authorise the setting up of a meeting with HLF officials to gain feedback on the funding application, whether there was any purpose in re-submitting the scheme in a revised form and if essential refurbishment works as detailed above could be carried out without prejudicing any future application for funding.

**61/15 GWYNEDD CHALLENGE – Meeting with Town and Community Councils – 13 July 2015 – 6.00 pm – Bangor City FC, Nantporth Stadium**

The Town Clerk referred to a list he had prepared of Gwynedd Council services that the City Council could take responsibility for should the service level they provided in Bangor be curtailed as a result of funding cuts in future years.

The Clerk pointed out that it was essential that the income generating Council car parks and parking enforcement services be handed over in order to finance, maintain and improve the other services set out in the list.

It was **RESOLVED** to adopt the list as a basis for discussion with Gwynedd on the matter at the forthcoming meeting on 13 July 2015.

**62/15 EMERGENCY WORK TO TREES – MENAI WOODS / PENRHYN ARMS WOODS**

The Town Clerk report that it had been necessary to carry out urgent substantial felling works in respect of dead, dying and dangerous softwood trees in Menai Woods. Three of these trees were in the vicinity of the adjacent highway and necessitated a traffic management system along the highway to enable the felling work to be implemented. So far, expenditure in the region of £7,000.00 had been committed out of a total budget of £10,000.00 in the 2015/16 Budget estimates. A condition survey was currently being carried out on the condition of the trees in Penrhyn Arms Woods, and it was envisaged that several trees in a dead, dying or dangerous state would need to be felled here before the high winds of the late autumn.

The Town Clerk anticipated that this work would exceed the total budget figure. He requested that additional funds of up to £5000.00 be allocated to the work from the Council's Capital Reserves if necessary.

It was **RESOLVED** to authorise the virement of up to £5,000.00 from Capital Reserves towards urgent tree work if necessary.

**63/15 INVOICES FOR PAYMENT**

It was **RESOLVED** to approve for payment the invoices as detailed on the schedule covering Voucher Nos. 33/15 to 44/15 totalling £28,327.37

**64/15 EXCLUSION OF THE PRESS AND PUBLIC**

It was **RESOLVED** that in accordance with Section 1 of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, the Press and Public be excluded during discussion of the following items relating to staffing matters which includes information of a confidential nature:

**Staffing Matters –** The Town Clerk reported that the start date that had been provided by the new Town Clerk was the 21 September 2015. It was essential therefore to put in place interim arrangements.

After some discussion it was **RESOLVED** that Members could manage without officer involvement at the end of July and early September Planning Committees and the September full Council meeting.

The Clerk said that he intended to finish his employment with the Council after he had completed the implementation of the decisions reached at the Planning and the Finance Committees held earlier that evening, documenting the minutes, clearing outstanding issues and giving the new Town Clerk a comprehensive briefing on any outstanding issues relating to the City Council.

However, it was **RESOLVED** to ask the Clerk whether he would be prepared to advise the Council on any outstanding issues that concerned day to day matters and the management of the Council when required in the interim period. The Clerk indicated his willingness to do this.

As this was Gwyn Hughes' last meeting, Members thanked him for his commitment, dedication, sound advice and guidance for the City Council over the past sixteen years and wished him well in his retirement. In turn the Clerk thanked the Members for their friendship and support in his time with the Council and stated that he was confident that the Council would be well served by the new Town Clerk.

The Meeting finished at 9.00 pm

**CHAIRMAN**

Cofnodion **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Dydd Llun 29 o Fehefin 2015 am 7.05 y.h.**

**PRESENNOL :-** Ei Theilyngdod y Maer, y Cynghorydd Mrs E Butler

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | Mrs L Day (Cadeirydd) | John Wynn Jones | J Martin |
| | Rhys Taylor | D Llewelyn | G O Roberts |
| | Mrs J Forsyth | Mrs J Marshall | H Williams |
| | D Hainge | K Marshall | |

Swyddog : Mr Gwyn Hughes, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

**56/15 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Dirprwy Faer, y Cynghorydd D Williams (profedigaeth), y Cynghorwyr E T Dogan (ysbyty), D Madge (ysbyty) ) ac N Pickavance (salwch).

**57/15 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Ei Theilyngdod y Maer, y Cynghorydd Mrs E Butler, y Cadeirydd, y Cynghorydd Mrs L Day, y Cynghorwyr D Hainge, Mrs J Marshall ac J K Marshall ar Eitem 59/15 Cyfrifon Terfynol Draft a) Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol – paragraff 4.

**58/15 MATERION BRYS**

a) **Cofrestr o Ddiddordebau Aelodau –** Atgoffodd Clerc y Dref yr Aelodau i ddiweddaru a chwblhau ffurflenni Cofrestru Diddordebau fel y gellir eu rhoi ar wefan y Cyngor yn ol gofynion Llywodraeth Cymru.

b) **Cyngor Gwynedd – Ymgynghoriad ar ddyfodol Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Gwynedd – cyfarfod i'w gynnal ym Mhorthmadog ar 15 July 2015.**

   **PENDERFYNWYD** y dylai Ei Theilyngdod y Maer, y Cynghorydd Mrs E Butler a'r Cynghorydd D Hainge gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod.

**59/15 CYFRIFON TERFYNOL DRAFT AM Y FLWYDDYN ORFFENNODD MAWRTH 2015**

a) **I ystyried Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol**

Ystyriodd Aelodau Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol fesul paragraff. Am fod datganiad o ddiddordeb gan nifer o Aelodau ar baragraff 4 o'r Adroddiad, **PENDERFYNWYD** delio gyda'r paragraff yma yn gyntaf.

**PENDERFYNWYD** ymhellach yn unol ag Adran 1 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd yn ystod trafodaeth yr eitem ganlynol sy'n ymwneud a chontractau a fuasai yn cynnwys gwybodaeth sydd o natur gyfrinachol:

Adroddodd Clerc y Dref bod cyfarfod wedi ei gynnal ar ol i'r Archwiliwr Mewnol ysgrifennu ei adroddiad gyda'r ymgynghorwyr a sonir amdanynt ganddo ynglyn a chynnwys eu hadroddiad ar y Pier a'r diffygion ynddi a oedd y Cyngor yn poeni amdanynt – fel y trafodwyd mewn nifer o gyfarfodydd o'r Cyngor dros y 12 mis diwethaf. Atgoffwyd yr Aelodau bod y materion yma i wneud a:

i) Y broses ymgynghori gyda Chronfa Treftadaeth y Loteri.
ii) Y rhwystrau oedd yn bodoli ar wely'r mor oddi tan ac yng nghyffiniau'r Pier fel canlyniad i'r Gorchymyn Cerrig Gleision a Wystrys Afon Menai 1962, sy'n amddiffyn y gwlau cerrig gleision a diddordebau y diwydiant pysgots cerrig gleision yn lleol.

Yr oedd cytundeb cyfeillgar wedi cael ei wneud yn y cyfarfod lle y buasai'r ymgynghorwyr yn lleihau y swm yr oeddant yn ei ofyn amdano yn eu hanfoneb gwreiddiol, i adlewyrchu pryderon y Cyngor am y diffygion yn eu hadroddiad ar y materion yma. Yr oedd yr ymgynghorwyr yn awr yn y broses o yrru anfoneb diwygiedig am eu gwaith.

Dywedodd Clerc y Dref bod y cytundeb, yn ei farn ef, yn deg ac yn adlewyrchu gwerth y gweddill o adroddiad yr ymgynghorwyr i'r Cyngor. Adroddodd hefyd ei fod wedi trafod y cytundeb gyda'r Archwiliwr Mewnol ac yr oedd yr Archwiliwr hefyd yn cytuno'n llawn a'r farn hon.

Croesawodd Aelodau adroddiad Clerc y Dref ar y mater a **PHENDERFYNWYD** symud ymlaen i setlo'r mater yn unol a'r cyngor a roddwyd gan y Clerc a'r Archwiliwr Mewnol.

**PENDERFYNWYD** ymhellach i ddiolch i Glerc y Dref am amddiffyn diddordebau Cyngor y Ddinas yn y mater yma.

Yna **PENDERFYNWYD** gadael y Wasg a'r Cyhoedd yn ol i mewn i'r cyfarfod.

Datganiad o ddiddordeb gan ei Theilyngdod y Maer, y Cynghorydd Mrs E Butler, y Cadeirydd, y Cynghorydd Mrs L Day, y Cynghorwyr D Hainge, Mrs J Marshall a J K Marshall a gadawson nhw i gyd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar baragraph 4 o adroddiad yr Archwiliwr Mewnol.

Yn absenoldeb y Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor o ganlyniad i'w Datganiad o Ddiddordeb, cymrodd y Cynghorydd J Wynn Jones y gadair am yr eitem yma.

Ar ol gadael y Siambr am yr eitem a gyfeirir ato ym mharagraph 4 o Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol, ni ddychwelodd y Cynghorydd Mrs June Marshall yn ol i'r Cyfarfod.

Yna cymrodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Mrs Day y gadair am weddill y Cyfarfod.

Yr oedd adroddiad yr Archwiliwr wedi codi'r mater o feddalwedd cyfrifon ym mharagraffau 1, 2 a 3. Atgoffwyd Aelodau gan y Clerc bod arian wedi ei glustnodi yng nghyllideb 2015/16 i brynu meddalwedd newydd. Roedd Microsoft erbyn hyn wedi terfynnu eu cefnogaeth technegol i system y weithredu Windows XP a oedd meddalwedd presennol y Cyngor yn dibynnu arno ac felly rhaid oedd newid. Yr oedd eisioes wedi dilyn arweiniad yr Archwiliwr ar y system newydd ac wedi ymgynghori ac Ian Jones, y darpar Glerc ac yr oedd wedi derbyn adroddiadau ardderchog gan y defnyddwyr i gyd. Yr oedd Cyngor Tref Cei Connah hefyd wedi gosod yr un sustem i mewn yn ddiweddar ac yr oedd Ian Jones yn gwybod am ei rhinweddau ac yr oedd wedi cael argraff dda iawn arno. Felly roedd y sustem Rialtus newydd wedi ei archebu a bydd wedi ei osod ac yn gweithredu'n llawn yn ystod yr wythnosau nesaf. Croesawodd yr Aelodau'r cynnydd yn mater.

Nodwyd cynnwys paragraff 5 cyn belled ac yr oedd annibyndod yr Archwiliwr Mewnol yn y cwestiwn a hefyd gynnwys paragraff 6.

**PENDERFYNWYD** felly i ddiolch i Mr John Roberts, yr Archwiliwr Mewnol a hefyd Ms Joy Roberts a Chlerc y Dref am eu gwaith ar Gyfrifon Blynyddol 2014/15.

Wedyn **PENDERFYNWYD**

b) I gadarnhau'r Datganiad o Gyfrifon 2014/2015

c) I gadarnhau'r ffigyrau i'r Cyfrifon Blynyddol 2014/2015

d) Bod Aelodau'n derbyn y cyfrifoldeb am baratoi'r Cyfrifon am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2015 ac yn cadarnhau eu bod yn cytuno a'r aswiriannau a ddanghosir ar y Datganiad o Aswiriant am 2014/2015.

**60/15 CANLYNIAD CAIS CRONFA'R LOTERI TREFTADAETH (CLT) PIER BANGOR**

Adroddodd Clerc y Dref ar ganlyniad y cais i'r CLT i ariannu cynllun datblygu prosiect y Pier. Yn anffodus nid oedd y cais wedi llwyddo y tro yma.

Nid oedd ond £1.026 miliwn ar gael trwy Gymru yn y rownd yma ac yr oedd gwerth y ceisiadau a dderbyniwyd gan yr HLF dros £7.1 o filiynau. Yr oedd pwyllgor yr CLT *'……wedi adnabod potensial y prosiect i gyfrannu i fuddsoddiad ehangach ym Mangor ac yn nodi bod rhan sylweddol o arian y bartneriaeth eisioes wedi ei sicrhau.*

*Fodd bynnag, yr oedd elfennau yn creu pryder:*

*a) Nid oedd y Pwyllgor wedi ei argyhoeddi am yr angen a oedd wedi ei gyflwyno i wneud gwaith brys.*
*b) Y risg o gynnydd sylweddol yn y costau.*
*c) Cynaliadwyaeth tymor hir a oedd i weld yn rhannol ddibynnol ar elfennau o waith yn y dyfodol nad oeddynt wedi eu hariannu.'*

Yr oedd y llythyr yn mynd ymlaen i wahodd swyddogion y Cyngor am drafodaethau pellach gyda swyddogion yr HLF am y cais.

Dywedodd Clerc y Dref fod y sefyllfa cyn belled ac y mae cyflwr y strwythur metel oddi tan y pier yn y cwestiwn yn dirywio'n gyflym – yn groes i gynnwys llythyr yr CLT – ac y buasai'n annoeth iawn anwybyddu hyn. Nid oedd y Cyngor angen creu sefyllfa ar Bier Bangor tebyg i Bier Bae Colwyn lle'r oedd y strwythyr yno wedi dirywio i'r fath raddfa fel y buasai'n costio miloedd lawer o bunnau i'w achub. Cynghorodd y Clerc bod bwriad gwreiddiol y Cyngor o wneud gwaith adfer mewn camau graddol yn awr yn cael ei weithredu cyn gynted a phosib. Cynghorodd hefyd y dylid cael eglurhad gan y CLT os y buasai'r gwaith yma'n effeithio'n andwyol ar unrhyw gais am arian iddynt yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** rhoi'r hawl i drefnu cyfarfod gyda swyddogion y CLT i gael adborth ar y cais am gymhorthdal, os oedd unrhyw bwrpas ail-gyflwyno'r cais mewn ffurf gwahanol ac os y buasai cario allan gwaith adfer fel y gosodwyd allan uchod yn amharu ar unrhyw gais am arian a gyflwynid i'r CLT yn y dyfodol.

**61/15 HER GWYNEDD – Cyfarfod gyda Cynghorau Tref a Chymuned – 13 Gorffennaf 2015 – 6.00 pm – CPD Dinas Bangor, Stadiwm Nantporth.**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at restr a oedd wedi ei pharatoi o wasanaethau Cyngor Gwynedd y gallasai Cyngor y Ddinas gymryd cyfrifoldeb amdanynt os y buasai safon y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ym Mangor yn gwaethygu oherwydd toriadau mewn cyllid yn y dyfodol agos.

Dywedodd y Clerc ei bod yn hanfodol bod yr incwm sy'n cael ei gynhyrchu gan feusydd parcio Bangor a gwasanaeth gorfodaeth parcio'r Cyngor yn cael eu trosglwyddo er mwyn cyllido a gwella'r gwasnaethau a osodir allan yn y rhestr.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r rhestr fel sail i'r trafodaethau gyda Gwynedd yn y cyfarfod ar y 13 Gorffennaf 2015.

**62/15 GWAITH BRYS I GOED – COED MENAI / COED PENRHYN ARMS – Cais am wyriad**

Adroddodd Clerc y Dref ei wedi bod yn anghenrheidiol gwneud gwaith torri coed sylweddol ar fyrder i waredu coed pren meddal yng Nghoed Menai a oedd un ai wedi marw, yn marw neu'n beryglus. Roedd tair o'r coed yng nghyffiniau'r briffordd ac yr oedd hyn wedi golygu gosod system rheoli trafnidiaeth ar y ffordd i alluogi'r gwaith gael ei gwblhau. Hyd yn hyn, roedd gwariant yn agos i £7,000.00 wedi ei wneud allan o gyfanswm o £10,000.00 a oedd o dan y pennawd perthnasol yng Nghyllideb 2015/16. Roedd arolwg o gyflwr y coed yng nghoedwig Penrhyn Arms hefyd yn cymryd lle ac yr oedd rhagolygon y buasai angen torri nifer o goed peryglus yma cyn amser gwyntoedd cryfion yr Hydref.

Roedd Clerc y Dref yn tybio y buasai'r gwaith yma'n mynd yn fwy na'r amcangyfrif yn y Gyllideb. Gofynnodd felly am adnodddau ariannol ychwanegol o £5,000.00 i'w clustnodi i'r gwaith allan o falansau'r Cyngor os y buasai angen.

**PENDERFYNWYD** awdurdodi trosglwyddiad o hyd at £5,000.00 o Falansau Cyfalaf y Cyngor tuag at y gwaith brys yma os y buasai ei angen.

**63/15 ANFONEBION I'W TALU**

**PENDERFYNWYD** derbyn a chaniatau talu'r anfonebau fel eu ceir yn y Rhestr, yn cynnwys Talebau Rhif. 33/15 i 44/15 yn rhoi cyfanswm o £28,327.37.

**64/15 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** yn unol ag Adran 1 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd yn ystod trafodaeth yr eitemau canlynol ynglyn a materion staffio sydd yn cynnwys gwybodaeth o natur gyfrinachol:

**Materion staffio** – Adroddodd Clerc y Dref bod y Clerc newydd wedi rhoi dyddiad dechrau yn y swydd o 21 Madi 2015 ymlaen. Yr oedd yn hanfodol felly bod trefniant dros dro yn cael ei ddarparu er mwyn i'r Gyngor allu parhau i weithredu'n effeithiol.

Ar ol peth trafodaeth, **PENDERFYNWYD** y gallasai Aelodau ymdopi heb swyddog ym Mhwyllgorau Cynllunio diwedd Gorffennaf a dechrau Medi a Chyngor llawn mis Medi.

Dywedodd y Clerc ei fod yn golygu gorffen ei gyfnod gwaith gyda'r Cyngor ar ol gorffen gweithredu penderfyniadau'r Pwyllgorau Cynllunio a Chyllid a gynhaliwyd yn gynharach ar y noson, cwblhau cofnodion y cyfarfodydd yma, clirio unrhyw waith oedd ar ôl a rhoi crynodeb cyflawn i'r Clerc newydd o unrhyw faterion oedd ar y gweill yn y Cyngor y dylai ef fod yn gwybod amdanynt.

Fodd bynnag, **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc os y buasai'n fodlon cynghori'r Cyngor ar unrhyw fater oedd yn deillio o faterion ac a fuasai'n codi o ddydd i ddydd neu materion rheolaeth os oes ei angen yn y cyfamser. Dywedodd y Clerc y buasai'n hapus i wneud hyn.

Gan mai hwn a fuasi cyfarfod diwethaf Clerc y Dref, diolchwyd iddo gan yr Aelodau am ei ymroddiad, ei ffyddlondeb, ei gyngor a'i arweiniad doeth i Gyngor y Ddinas dros yr un mlynedd a phymtheg diwethaf a dymuno'r gorau iddo ar ei ymddeoliad. Yn ei dro diolchodd y Clerc i'r Aelodau am eu cyfeillgarwch a'u cefnogaeth yn ei amser gyda'r Cyngor a dywedodd ei fod yn ffyddiog y buasent yn cael gwasanaeth da iawn gan y Clerc newydd.

---

Gorffennwyd y Cyfarfod am 9.00 p.m.

**CADEIRYDD**